# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2297 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 16/07/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4790 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4791 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau ar gyfer Aelodau.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4792 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4795 |
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor y bydd cyfarfodydd y dyfodol yn cychwyn am 10.00 a.m. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4793 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2021.<br><br>Dywedodd Aelod, fel y nodir yn y cofnodion, ei fod yn dal heb dderbyn ymateb gan y Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ac mai hwn oedd y trydydd mis o ddisgwyl ymateb i'w gais am wybodaeth. Awgrymodd y Cadeirydd fod yr Aelod yn siarad yn uniongyrchol gyda'r Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yn dilyn y cyfarfod hwn.<br><br>**<u>Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)</u>**<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurdeb os y cyflwynir adroddiad cynnydd ar CCTV i'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol. Cadarnhaodd y Cadeirydd y caiff adroddiad cynnydd ar CCTV ei gynnwys yn y Flaenraglen Gwaith ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar 10 Medi 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5046 |
| Item Title | Blaenraglen Gwaith 2021-22 Arfaethedig y Pwyllgor Craffu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol, sy'n cyflwyno y Rhaglen Gwaith Craffu Corfforaethol ar gyfer 2021-22 (Atodiad 1) ac i geisio cymeradwyaeth gan y Pwyllgor. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd Aelod at newid hinsawdd ac er nad oedd yn bwnc i’r Pwyllgor hwn, teimlai y dylai pob agenda gynnwys gwybodaeth am newid hinsawdd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd y byddai templed adroddiad safonol o fis Medi 2021 yn cynnwys adran ar ddatgarboneiddio a gaiff wedyn ei adrodd i bob Pwyllgor.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef cytuno ar Flaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar gyfer 2021-22. |

| Item ID | 5048 |
|---|---|
| Item Title | Strategaeth Gweithlu 2021-2026 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol i graffu ar a herio’r ddrafft Strategaeth Gweithlu 2021-2026 (Atodiad 1).<br><br>Siaradodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo sy’n cynnwys bod y drafft Strategaeth Gweithlu yn strategaeth pum mlynedd yn canolbwyntio ar y dyfodol, gan gysylltu deilliannau gwasanaeth gyda’r gweithlu sydd ei angen i gyflawni’r deilliannau hynny a chynllunio ar gyfer gweithlu’r dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef cefnogi drafft arfaethedig Strategaeth Gweithlu 2021-26 i symud ymlaen i gael ei gymeradwyo yn y Cyngor. |

| Item ID | 5047 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Cyllid a Pherfformiad Diwedd y Flwyddyn 2020/21 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd oedd i gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol sefyllfa diwedd y flwyddyn yr Adroddiad Cyllid a Pherfformiad ar gyfer y flwyddyn 2020/21 (ynghlwm yn Atodiad 1).<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn ddi-os y cyflawnwyd gwaith da drwy gydol y flwyddyn, yn arbennig yn ystod y pandemig, ac mae’n amlwg y cafodd rhai o agweddau ariannol yr adroddiad eu gwneud mewn amodau cyllideb da. Teimlai fod angen profi Pontio’r Bwlch yn iawn ac roedd yn ymwybodol fod cyllid caledi Llywodraeth Cymru wedi galluogi’r Cyngor i gyflawni’r gyllideb.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at absenoliaeth a holodd os bu unrhyw welliant yn ystod blwyddyn ddiwethaf y pandemig. Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod absenoliaeth wedi gostwng fel canlyniad i weithio gartref. |

Cynhelir adolygiad ar y ffigurau a'r perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf a chyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ym mis Medi.

Cododd Aelod bryderon am absenoliaeth yn yr adrannau Cynllunio a Rheoli Adeiladu yng nghyswllt ymweliadau safle. Cododd Aelod arall hefyd fater absenoliaeth ar draws y Cyngor; er bod absenoliaeth yn is, teimlai fod yn dal fod angen i drafod hyn gan fod y Cyngor yn prynu gwasanaethau gan asiantaethau yn Nhorfaen a Chaerdydd yng nghyswllt materion Cynllunio a Rheoli Adeiladu. Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol mai'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad oedd y sefyllfa diwedd blwyddyn o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021 a chadarnhaodd y cyflwynir adroddiad yn adolygu perfformiad absenoldeb salwch i'r Pwyllgor hwn ym mis Medi. Roedd yn cydnabod fod absenoldebau mewn Rheoli Adeiladu ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn datblygu cynlluniau parhad gwasanaeth.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod problem benodol yn y gwasanaeth y mae'r Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a'i dîm yn ymchwilio, mae ffigurau absenoldeb salwch yn gyffredinol ar draws y Cyngor yn gostwng.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod set neilltuol o amgylchiadau yn yr adran o fewn Rheoli Adeiladu ac mewn Cynllunio. Yng nghyswllt Rheoli Adeiladu, roedd Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau wedi hysbysu Aelodau drwy nodyn am y set unigryw o amgylchiadau lle'r oedd pob un o'r pedwar Swyddog Rheoli Absenoldeb yn absennol am wahanol resymau ac er mwyn cynnal gwasanaeth ar gyfer y gymuned, rhoddwyd trefniadau ar waith gyda rhai cynghorau cyfagos yng nghyswllt gwirio cynllun, oedd yn drefniant cydfuddiannol ac nad oedd yn effeithio ar y gwasanaeth i breswylwyr. Cadarnhaodd y cafwyd cefnogaeth asiantaeth yng nghyswllt Rheoli Adeiladu, mae dau ar hyn o bryd a byddai hyn yn galluogi cynnal arolygiadau ar y safle a darparu gwasanaeth gystal ag y gellid ei ddisgwyl o fewn yr amgylchiadau presennol. Yng nghyswllt Cynllunio, mae penderfynu ar geisiadau cynllunio yn flaenoriaeth allweddol a daethpwyd â pheth cymorth ymgynghoriaeth i mewn i helpu prosesu'r ceisiadau cynllunio. Dywedodd y cafodd hynny ei wneud o'r blaen yn y gorffennol pan oedd nifer fawr o geisiadau cynllunio. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau fod y sefyllfa'n cael ei thrin ac esboniodd nad oedd absenoldeb ar draws yr holl adran, bu dwy set wahanol o amgylchiadau a ddigwyddodd yr un pryd.

Yng nghyswllt Cynllunio, dywedodd Aelod fod preswylwyr wedi mynegi pryderon eu bod yn talu ffioedd cynllunio ond fod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn cyfarfodydd heb gynnal ymweliad safle a holodd os oedd hyn yn arferol. Atebodd y Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y gallai'r Aelod fod yn cyfeirio at ymgynghoriad cyn gwneud cais lle gallai ymgeiswyr drafod eu ceisiadau cynllunio gyda Swyddogion Cynllunio cyn cyflwyno cais er mwyn cael syniad os y byddai'r cais yn diwallu meini prawf cynllunio.

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef derbyn yr wybodaeth fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 5129 |
|---|---|
| Item Title | Diwygio Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i ystyried newid arfaethedig i bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) yr Adroddiad a'r effaith a gaiff hyn ar ddarpariaeth isafswm refeniw yn y dyfodol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd P. Baldwin y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Holodd Aelod am gost cyflogi Cynghorwyr Trysorlys, Link Asset Services, i gynnal adolygiad o'r polisi MRP presennol. Nid oedd yr union ffigur wrth law gan y Prif Swyddog Adnoddau ond amcangyfrifodd y byddai tua £2,000 i £3,000 ac y byddai'n cael ei gyllido drwy gyllideb gwasanaeth Adnoddau.<br><br>Cododd Aelod bryderon fod hyn yn gwthio dyled i'r dyfodol ar gyfer gweinyddiaethau diweddarach. O gofio am y setliadau da a gafodd yr Awdurdod hwn gan Lywodraeth Cymru teimlai y dylai'r Cyngor fod yn gwneud mwy i liniaru pwysau cost ei hunan. Mae ganddo bryderon os gall gweinyddiaethau'r Awdurdod yn y dyfodol ddefnyddio benthyca darbodus mewn amodau cyllideb mwy llym. Dyfynnodd yr Aelod o adroddiad blaenorol MRP lle hysbyswyd Aelodau "yn ystod cyfnod gostwng MRP hyd at 2022/23, byddai gan yr Awdurdod gyfnod hirach i gynllunio a gweithredu arbedion trawsnewidiol tymor hirach a fyddai'n cyfrannu at liniaru'r cynnydd mewn MRP ar ddiwedd y bumed flwyddyn". Teimlai fod yr adroddiad hwn yn awr yn dangos fod hyn yn fethiant llwyr.<br><br>Nid oedd y Prif Swyddog Adnoddau yn cytuno gyda sylwadau'r Aelodau a dywedodd eu bod wedi dynodi a sicrhau lefel sylweddol o arbedion yn ystod y cyfnod o bum mlynedd ac wedi wynebu pwysau cost annisgwyl ychwanegol yn ogystal â'r MRP.<br><br>Gwyddai'r Aelod nad oedd y Prif Swyddog Adnoddau yn ei swydd adeg yr adroddiad MRP blaenorol, ond dywedodd fod Aelodau wedi penderfynu cefnogi, gan wybod y byddai'r Cyngor yn canfod ffordd o liniaru'r pwysau cost hyn a fyddai'n dod i mewn yn 2022/23, a theimlai fod y weinyddiaeth wedi methu gwneud hyn a bu'n rhaid ymrwymo i gytundeb MRP arall ar gyfer y dyfodol a fyddai'n rhoi dyled ar genedlaethau i ddod. Ni fedrai'r Aelod gefnogi'r adroddiad a byddai'n cynnig argymhelliad arall yn dilyn trafodaeth bellach.<br><br>Teimlai Aelod arall y teimlai fod hyn yn cadw dyled ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cyfeiriodd at bwynt 5.1.5 yr adroddiad – Ar gyfer dibenion yr |

adroddiad hwn ni chafodd amcangyfrifon gwariant cyfalaf yr Awdurdod yn y dyfodol eu cynnwys yn y dadansoddiad ac mae pob opsiwn yn seiliedig ar sefyllfa CFR fel ar 31 Mawrth 2021 – a holodd os yw'r £70 miliwn y mae'r Awdurdod yn ei fenthyca a thalu £1.4 miliwn yn ôl wedi ei gynnwys yn y cyfrifiadau hyn. Esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau na fyddai'r newid hwn mewn polisi yn effeithio ar yr union ad-daliad dyled a wneir bob blwyddyn. Nid yw'r benthyciad arfaethedig o £70m gan Lywodraeth Cymru wedi ei gynnwys yn y cyfrifiadau am ddau reswm. Y cyntaf oedd nad yw'r Cyngor wedi cytuno hyd yma i dderbyn y benthyciad ar sail hirdymor a'r ail oedd pe bai'r Cyngor yn cytuno i dderbyn y benthyciad, y dynodwyd ffrwd incwm a fyddai'n gwrthbwyso cost MRP ar gyfer y benthyciad hwnnw felly ni fyddai'n cael dim effaith ar gyfrifiad MRP net yn y dyfodol.

Dywedodd Aelod, ar ôl gwrando ar gyflwyniad yr adroddiad gan y Prif Swyddog Adnoddau a'r dadleuon yn erbyn ac yn ystyried effaith gadarnhaol yr Adroddiad, ei fod yn cynnig Opsiwn 2. Eiliwyd y cynnig hwn.

Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod y byddai'r ffigurau yn cynyddu wrth symud ymlaen ac mai cenedlaethau'r dyfodol fyddai'n teimlo'r baich. Cyfeiriodd eto at yr adroddiad blaenorol y byddai'r Cyngor yn gwneud popeth a fedrai i liniaru pwysau cost ac ystyried adnoddau ychwanegol ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynnig yn edrych yn gadarnhaol am y cyfnod cyntaf o bum mlynedd ond byddai'r ffigurau yn cynyddu hyd at 2022 a byddai dyled yn fwrn ar weinyddiaethau'r Cyngor yn y dyfodol a theimlai y gallai'r Cyngor liniaru pwysau cost yn defnyddio'r setliadau ffafriol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cynigiodd Aelod yr argymhelliad amgen dilynol:-

- Bod y Cyngor yn cymryd y cyfle i ddelio gyda'r sefyllfa yn awr, yn defnyddio arian yn dilyn setliad gwell gan Lywodraeth Cymru a pheidio cadw dyled ar gyfer y dyfodol.

Eiliwyd yr argymhelliad amgen.

Felly gofnodwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

O blaid yr argymhelliad amgen – Cynghorwyr S. Thomas, M. Cross, L. Elias a T. Smith.

Yn erbyn yr argymhelliad amgen – Cynghorwyr S. Healy, M. Cook, G.A. Davies, J. Hill, J. Holt, C. Meredith, J.P. Morgan a G. Paulsen.

Ymatalodd y Cynghorydd G. Collier ei bleidlais.

Felly ni chariwyd y bleidlais ar yr argymhelliad amgen.

Felly, cynigiodd y Cynigiodd dderbyn Opsiwn 2 (opsiwn a ffafrir). Cafodd yr Opsiwn ei eilio, ac felly,

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef bod yr Aelodau yn craffu ar y cynigion ac argymell i’r Pwyllgor Gweithredol/Cyngor i gefnogi newid yr elfen benthyca a gefnogid o’r MRP o 2% llinell syth i sail blwydd-dal 50 mlynedd ac i newid yr elfen benthyca nas cefnogir o’r MRP o  sail blwydd-dal ased unigol i sail blwydd-dal cyfartalog pwysedig. Gweithredir y newid hwn o 1 Ebrill 2021. |